## Sul y Pasg

**Galwad i Addoli:**
Cydunwn oll i gadw gŵyl
yng nghwmni'r saint â llawen hwyl,
a chyd-foliannwn Dduw – ein Rhi,
am roddi Crist yn Basg i ni.

**Darllen Marc 16:1–8; Rhufeiniaid 6:3–11**

**Neges:**
Nid diwedd oedd marwolaeth Iesu ond cychwyn rhyfeddol. Dathlu'r dechrau newydd a wnawn ar Sul y Pasg. Mae Iesu'n fyw, Haleliwia!

Ond nid yw'r efengylau yn cuddio'r ffaith nad oedd y disgyblion yn disgwyl y fath honiad nac yn ei gredu. Y profiad o Iesu byw a'u gorfododd i ailystyried ac arddel y fath gred.

Ofer yw ceisio profi neu wrthbrofi bod yr atgyfodiad yn ddigwyddiad hanesyddol. Ysgrifennwyd y Testament Newydd flynyddoedd wedi'r croeshoelio, ond mae'n amlygu profiad y Cristnogion cynnar o'r ffydd oedd i'w rhannu ganddynt ac o gariad Duw oedd wedi 'ei dywallt yn ein calonnau.' Cawn y mynegiant clasurol o'r profiad gan Paul (Galatiaid 2:20): 'a mwyach, nid myfi sy'n byw, ond Crist sy'n byw ynof fi. A'r bywyd yr wyf yn awr yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw trwy ffydd yr wyf, ffydd ym Mab Duw, yr hwn a'm carodd i ac a'i rhoes ei hun i farw trosof fi.'

Mae grym cariad Crist wedi cyrraedd calonnau miliynau yn ystod bron i ugain canrif. Parhau i lefaru y mae ef.

> Na, na, nid marw fy Arglwydd a'm Duw,
> cyfododd yr Iesu: mae eto yn fyw,
> a ninnau a'i gwelsom a thystion ym ni,
> mai gobaith yr oesoedd yw croes Calfarî.

**Neges:**
Darllenais dro'n ôl am ŵr a gwraig yn mynd ar wyliau i Gaint. Prynu map a llawlyfr cyn mynd er mwyn gwybod am fannau diddorol i ymweld â nhw. Un diwrnod, daethant i dref lle'r oedd amgueddfa fechan i gofio un o enwogion yr ardal. Cawsant drafferth dod o hyd iddi oherwydd y traffig a'r strydoedd cul. Stopio'r car i gael golwg arall ar y map. Er syndod iddynt, gwelsant blismon yn cerdded yn eu hymyl. Dyma ofyn iddo eu cyfeirio at yr amgueddfa. 'Mae braidd yn gymhleth,' meddai, 'ond rwyf ar y ffordd adref ac yn mynd i'r cyfeiriad yna os caf ddod gyda chi.' Cytunwyd ar hynny, a daethant at yr amgueddfa gan ddilyn ei gyfarwyddiadau. Nid oedd y map na'r llawlyfr wedi bod yn ddigonol. Roedd yn rhaid cael rhywun oedd yn gwybod y ffordd yno i'w harwain.

Nid cyfeirio o bell a wna Duw yn ôl yr Efengyl, ond dod atom i ganol bywyd i ddangos y ffordd. Llawenhawn ar Sul y Pasg fod Iesu yn parhau gyda ni ac wedi addo ei gwmni. 'Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd' (Mathew 28:20).

'Tydi yw'r ffordd, a mwy na'r ffordd i mi,
Tydi yw 'ngrym.'

**Gweddi:**

Deuwn i'th addoli, Arglwydd bywyd. Ynot ti yr ydym yn byw, yn symud
ac yn bod. Daethost i ni gael 'bywyd' a'i gael yn helaethach trwy ymddiried ynot. Ar Sul y Pasg llawenhawn fod Iesu'n fyw. Gwna'r oedfa hon yn llawn o orfoledd. Llawenhawn yn yr Arglwydd bob amser. Diolch na fedr neb na dim ddwyn y llawenydd hwn oddi arnom. Diolchwn ein bod yn cydlawenhau gyda phawb o bob iaith a chenedl sy'n cyffesu Iesu Grist yn Arglwydd heb iddo ef fod yn fyw yn ein bywydau. Cofiwn mai bywydau a newidiwyd oedd y rhai a welodd y meistr wedi'r groes. Digalondid ac anobaith yn cilio, meddyliau yn agored i'w wirionedd, calonnau a daniwyd ganddo, ac awydd i rannu newyddion da yn ei enw.

Bywha dy waith, O Arglwydd mawr,
yn ein calonnau ninnau nawr,
er marwhau pob pechod cas,
a chynnydd i bob nefol ras.

Diolchwn, O Grist, dy fod ar gerdded yn ein byd blinderog. Ti sy'n rhyddhau o bob caethiwed. Defnyddia ni, O Grist y Pasg, i fod yn ddwylo a thraed i ti, er clod i'th enw. Amen.

**Gweddi:**

Arglwydd, datglo ein bywydau.
Rydym mor fewnblyg:
yn anwesu bywyd;
yn ei wneud yn fach a chyfyng;
yn ei lapio o gwmpas ein pethau ni,
ein diddordebau, ein hawliau a'n heisiau;
ac felly yn ei wneud yn barsel bychan.
Mae'r gyfrinach gennyt ti:
'Pwy bynnag a fyn gadw ei fywyd, fe'i cyll,
ond pwy bynnag a gyll ei fywyd
er fy mwyn i, fe'i caiff.'
A bywyd wedyn yn agor allan
fel anturiaeth fawr.
Nid byw efo eraill yn unig
ond i eraill.

Ac yna rhyw orwelion newydd yn ymestyn,
un ar ôl y llall; wrth i ni gerdded at un,
bydd yn symud yn bellach o hyd oddi wrthym.
Rydym yn synhwyro mai dyna yw caru,
fel y ceraist ti, cariad sy'n ddiddiwedd.
Pan feddyliwn ein bod wedi gafael ynddo
mae'n mynd o'n cyrraedd.
Mae'n rhy fawr i'n dwylo ei gwmpasu.
Un peth sy'n codi'r galon

yw bod gennyt ti ddwylo digon mawr
i droi ein cariad amherffaith ni
yn fwy na'r hyn a freuddwydiwn.
Arglwydd y Pasg,
gwna'r freuddwyd yn ffaith,
fel y bydd y drysau yn agor
tuag allan.

**Y Fendith:**
Iddo ef, sydd â'r gallu ganddo i'ch cadw rhag syrthio, a'ch gosod yn ddi-fai a gorfoleddus gerbron ei ogoniant, iddo ef, yr unig Dduw, ein Gwaredwr, trwy Iesu Grist ein Harglwydd, y byddo gogoniant a mawrhydi, gallu ac awdurdod, cyn yr oesoedd, ac yn awr, a byth bythoedd! Amen.

***Oedfaon Ffydd, gol. Aled Davies***